# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Saron

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol iawn, gan sicrhau ei bod yn lle cartrefol a hapus i ddisgyblion a staff. Un o nodweddion amlycaf yr ysgol yw'r ffordd y mae staff yn ymddiried yn y disgyblion ac yn rhoi cyfrifoldeb iddynt fentro wrth ddysgu heb ofni gwneud camgymeriadau. O ganlyniad, mae gan bron bob disgybl fedrau dysgu annibynnol da, ac maent yn ymddwyn yn barchus, caredig a chwrtais i'w gilydd.

Mae staff yn gwrando'n gyson ar ddisgyblion, rhieni, llywodraethwyr ac aelodau'r gymuned, ac maent yn gweithredu ar eu syniadau trwy addasu gweithdrefnau'r ysgol, lle bo'n briodol. Maent yn annog disgyblion i fod yn falch o'u Cymreictod, ac i fod yn barod i ddysgu heb ormod o gymorth gan oedolion.

Trwy ddarparu cwricwlwm diddorol, mae staff yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau dysgu wedi eu seilio ar syniadau'r disgyblion ac yn aml yn dechrau o safbwynt yr ardal leol, cyn sôn am Gymru, ac yna'r byd ehangach. Mae disgyblion yn cael nifer o gyfleoedd i arwain yn yr ysgol ac i ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yno. Mae hyn yn meithrin eu medrau arwain a'u hannibyniaeth yn fedrus.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn disgwyl i ddisgyblion wneud gwaith da yn yr ysgol. Trwy eu harsylwi yn dysgu ac olrhain eu cynnydd, mae staff yn gwybod beth yw'r camau nesaf yn natblygiad y disgyblion. Mae hyn yn galluogi bron bob un disgybl, gan gynnwys y rheini y mae tlodi'n effeithio arnynt a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae gan staff rolau clir sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion disgyblion yn dda. Mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i ddatblygu medrau arwain staff ar bob lefel ymhellach er mwyn gwella'r ysgol yn barhaus. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn deall yr hyn sy'n gweithio'n dda yn yr ysgol, a'r hyn sydd angen ei wella. Mae hyn yn eu galluogi i bennu blaenoriaethau addas ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Parhau i ddatblygu medrau arwain staff ar bob lefel i'w galluogi i gynorthwyo arweinwyr i wella'r ysgol yn barhaus

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/12/2025